

Cân Mair

O, mae f'enaid i'n mawrygu'r Arglwydd fy Nuw!
F'ysbryd sydd yn gorfoleddu, Arglwydd fy Nuw!
Edrych wnaeth f'Achubwr addfwyn
Ac ystyried ei lawforwyn
Er ei bod yn ferch gyffredin, Arglwydd fy Nuw!

O hyn allan, pob cenedlaeth o bobl Dduw
Fydd yn dweud y cefais fendith, o bobl Dduw.
Wir, mi wnaeth yr un sy'n nerthol
Imi bethau mawr rhyfeddol;
Sanctaidd yw ei enw dwyfol, o bobl Dduw.

Ei drugaredd sy'n dragywydd, nawr ac am byth,
Ar y rhai sy'n ofni'r Arglwydd, nawr ac am byth.
Do, defnyddiodd nerthoedd cryfion
I wasgaru'r balch eu calon
A darostwng tywysogion, nawr ac am byth.

Anrhydeddu'r bobl werin wnaeth f'Arglwydd Dduw
Llenwi boliau'r rhai mewn newyn wnaeth f'Arglwydd Dduw.
Anfon ymaith y cyfoethog,
Ond i'w bobl mae'n drugarog,
Cofio byth yr hen gyfamod wnaeth f'Arglwydd Dduw.

Pob gogoniant rhown i'r Tad, Amen ac Amen
Ac i'r Mab a'r Ysbryd Glan, Amen ac Amen.
Fel yr oedd yn y dechreuad
Mae'r awr hon, a bydd yn wastad
Rhof fy einioes iddo'n rhad, Amen ac Amen.

tôn: Ar Hyd y Nos (tradd)
geiriau: Cass Meurig (addas. Y Magnificat)